**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**MAWRTH 27AIN 2024 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YM MHANDY TUDUR**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)
**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), , Sara Thomas (ST) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)
**1.3** Ymddiheuriadau: Myrddin Davies (MGD), Euros Williams (EUW) & Austin Roberts (AR)
**1.4** Absennol: Mark Davies (MD) & Gwydion Jones (GJ)

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION CHWEFROR 28AIN 2024 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan DR.

## 4 MATERION YN CODI

**4.1** Soniodd AV fod angen gyrru e-bost i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod sydd yn nodi mai Cymraeg yw'r iaith swyddogol a bod angen iddynt ddod a chyfieithydd efo nhw. Hefyd, i ddweud fod ganddynt 3 munud i siarad sydd yn cael ei amseru a ni chaniateir torri ar draws. Os yn hyn yn digwydd yna byddent yn cael rhybudd ac os bydd y torri ar draws yn digwydd eto yna y byddai'n rhaid eu gyrru allan. Cytunodd bawb i CWG ymateb i unrhyw gais am siarad mewn pwyllgor cyngor cymuned gyda'r wybodaeth yma.

**4.2** Diolchodd AV i MD, ST, EUW a Mary Hindley am blannu'r coed ym mynwent Llangernyw a bydd llun yn mynd i'r Gadlas.

**4.3** Nid oedd DR yn gallu mynychu cyfarfod Un Llais a Chymorth Cynllunio Cymru (eitem 9.5 ar y cofnodion diwethaf) ond bydd yn bresennol yn yr un nesaf yn lle.

**4.4** Mae holiadur wedi ei greu gan CWG ac mae angen trafod ei gynnwys a'i ddefnydd. Penderfynwyd i wneud hyn y mis nesaf ac i CWG ei anfon i bawb eto.

**4.5** Cais wedi dod i nodi Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig gyda'r dyddiad cau yn Mai 10fed 2024.

**4.6** Gofynnodd CWG wrth AR am gadarnhad o bwy sy'n berchen y tir o gwmpas y cae bob tywydd yn Llangernyw a nododd mai'r Cyngor Sir sydd yn berchen y tir a dyna maen nhw'n ddweud sydd ar y gofrestr tir. Hyd nes bod yna dystiolaeth i'r gwrthwyneb yna mae rhaid i ni gymryd eu gair. Trafodwyd y dylid hysbysebu i weld pe bai rhywun yn hoffi torri'r gwair a'i felio a bod yr ysgol yn defnyddio'r cwrt i ymarfer. Mae angen tynnu lluniau a chadw tystiolaeth i ddangos bod defnydd yn cael ei wneud o'r cae bob tywydd. Penderfynwyd ei roi ar agenda'r mis nesaf i'w drafod ymhellach.

**4.7** Diweddariad arwyddion VAS a chais grant - Gofynnwyd i CWG i yrru mapiau o'r lleoliadau allan i bawb eto a thrafodwyd y dylent gael eu troi i ffwrdd am 10 y nos.

**4.8** Cwrs cymorth cyntaf - Mae Tomos Hughes wedi cynnig dau ddyddiad sef Mai 22ain neu 28ain am 6 o'r gloch ond yn anffodus nid yw'r neuadd ar gael y dyddiadau hynny. Penderfynwyd i ofyn am ddyddiad ym Mehefin ac ar nos Fawrth.
[EW yn cyrraedd, wedi bod mewn pwyllgor arall]

**4.9** Diweddariad HSBC - Mae'r pecyn croesawu wedi mynd ar goll yn y post am yr ail waith a bydd angen aros 10 diwrnod gwaith i gael un newydd.

**4.10** Coeden ywen Gwytherin - gwaith wedi ei gwblhau gan Kevin Roberts ac mae lluniau wedi eu danfon i'r cynghorwyr. Gofynnodd Kevin o flaen llaw os yw'r cynghorwyr yn awyddus i gael rhywbeth wedi ei wneud allan o'r darnau mawr o bren sydd wedi eu cadw? Cynigiodd EW y dylid gofyn i drigolion y plwyf am syniadau e.e. tybiau blodau neu fainc. Hefyd, y dylid cael ocsiwn neu gynigion o dan sêl i brynu unrhyw bren sydd ar ôl. Bydd EW yn gofyn i drigolion Gwytherin am syniadau.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim wedi dod i law.

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Archwilio Cymru - maent wedi bod mewn cysylltiad yn ystod y mis ac ar gyfer yr archwiliad nesaf byddent angen hysbysiad ysgrifenedig gan yr aelodau unigol yn nodi eu bod wedi optio allan o'r taliad lwfansau. Yna, mae angen cyhoeddi'r rhestr o aelodau a'i chyflwyno i'r IRPW. Penderfynwyd i CWG baratoi taflen i'w llenwi y mis nesaf. Hefyd yn ystod y mis cafwyd hysbysiad o gwblhau ymchwiliad gan Archwilio Cymru ond roeddynt wedi atodi manylion cyngor cymuned arall felly mae CWG wedi cysylltu yn ôl. Cafwyd hefyd hysbysiad o archwiliad 2024 sydd am fod yn un llawn.

**6.2** Logo i'r Cyngor Cymuned – mae CWG wedi paratoi un ac roedd pawb yn hapus i'w ddefnyddio.

**6.3** Cynllun Bioamrywiaeth - Holodd CWG os yw'r clwb garddio wedi ail-gychwyn ond nid oedd datblygiad pellach. Un o'r targedau ar y cynllun bioamrywiaeth yw i ddatblygu cyfnewidfa planhigion a hadau. Penderfynwyd i gynnal un ar ddydd Sadwrn Ebrill 6ed o 10 - 12 y.b. Bydd angen i CWG ofyn am ganiatâd gan Mrs Gwenda Cooper i'w gynnal yn yr Eglwys a chytunodd DR a JR y byddai Merched y Wawr yn gofalu am y baned. CWG i'w hysbysebu ar yr hysbysfyrddau, poster yn y siop, ar y wefan ac ar *facebook*.

**6.4** CWG a DR wedi mynychu cyfarfod 'Pethau Bychain' yn sôn am roi cynefin addas i wenyn. Roedd DR wedi ceisio gofyn cwestiwn yn Gymraeg ond nid oedd cyfieithydd ar gael. Penderfynwyd i CWG yrru neges i Un Llais ynglŷn â hyn.
.
**6.5** Claddu llwch ym mynwent Gwytherin - gofynnodd EW os oedd caniatâd i hyn ddigwydd gan ei bod wedi cael cais gan aelod o'r cyhoedd. Roedd CR am edrych yn y llyfr plotiau i weld os oes rhai yno yn barod. Os nad oes, bydd rhaid clustodi darn ar ei gyfer a bydd CR yn gadael i EW wybod.

**6.6** Cyfarfodydd zoom pan nad yw cynghorydd yn gallu mynychu - roedd MGD wedi gofyn am ei roi ar yr agenda ond penderfynwyd i'w roi ar agenda mis Ebrill.

## 7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

**7.1** Mae ochor y ffordd A548 wedi ei atgyweirio ger Nant uchaf.
**7.2** Mae'r broblem dŵr ar yr A548 ger cyffordd Ty'n Pistyll wedi ei sortio dros dro.
**7.3** Mae'r ffordd rhwng Pen y Bryn a Phont Syllty wedi ei ail wynebu.
**7.4** Mae'r cwlfer/ bont rhwng Tai Pella a Thu hwnt i'r Afon wedi ei ddifrodi. Mae peiriannydd y cyngor wedi ei archwilio ac mae o wedi ei rhestru i gael ei drwsio.
**7.5** Gwaith ar "kerbs" rhydd yn Llangernyw i'w gyflawni o fewn y pythefnos nesaf .

Dywedodd DR fod aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu yn gofyn beth oedd yn digwydd gyda'r twll ar ochr allt Ty'n Pistyll. Mae i lawr i gael ei lenwi ond penderfynwyd i CWG ofyn i AR am ddyddiad pryd fydd hyn yn digwydd er mwyn gallu adrodd yn ôl.

**8 MATERION ARIANNOL**

**8.1** Adroddiad ariannol – llawn y mis nesaf

**8.2** Llythyr gan Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Tâf yn gofyn am gyfraniad – penderfynwyd i beidio cyfrannu

**8.3** Llythyr gan Un Llais yn gofyn a yw'r cyngor cymuned eisiau ymaelodi unwaith eto eleni (Ebrill 1af 2024- Mawrth 31ain 2025) am £198. Soniodd DR ei fod yn yswiriant i'r Cyngor Cymuned a chwestiynodd EW y gwerth am arian. Pasiwyd i ymaelodi ac adolygu'r flwyddyn nesaf.

**8.4** CWG wedi derbyn pris ar gyfer torri gwair yn y mynwentydd gan Dei Evans - £460 y toriad ar gyfer 2024 a £470 y toriad ar gyfer 2025. Penderfynwyd i roi contract 2 flynedd i Dei a diolchwyd iddo am ei waith taclus bob amser.

.

**8.5** Taliad llwybrau - CWG wedi derbyn e-bost yn dweud y bydd yn cael ei dalu yn fuan gan y Cyngor Sir. Diolch yn fawr i AR am bob cymorth yn sicrhau fod y taliad yn cael ei wneud .

.

**8.6** T.A.W – CWG wedi cysylltu gyda'r cyfrifydd eto yn ystod y mis ac wedi cael addewid y bydd yn cael ei hawlio ond dal ddim byd wedi digwydd. Mae CWG hefyd yn poeni am yr awdit sydd i ddod oherwydd roedd awdit y llynedd yn hwyr am yr un rheswm. Roedd pawb yn cytuno i CR gysylltu gyda Iona i weld os allith hyn gael ei sortio cyn gynted â phosib.

**9 GOHEBIAETH**

Mae'r canlynol wedi eu gyrru ymlaen i bob cynghorydd ar e-bost:

**9.1** Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ymddiriedolaeth Amgueddfa Syr Henry Jones Dydd Iau, 21ain Mawrth 2024 am 17:30. Maent wedi cael 2 ymddiriedolwr ac yn gweithio tuag at fod yn gynaliadwy eto sydd yn newyddion gwych. Mae'r cyfarfod nesaf ar Fai 8fed a bydd mwy o fanylion i ddilyn.

.

**9.2** Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 27 Mawrth 2024

**9.3** Cafwyd neges o ddiolch am y cyfraniad gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy

**9.4** Sgipiau Cymunedol, Banciau Ailgylchu a Gwastraff Swmpus – ni fydd y Cyngor Sir yn darparu'r rhain bellach. Bydd angen ymchwilio i rai preifat, gan obeithio cael un person efo nhw am fore gan efallai fod yn y 3 pentref os yw un Llangernyw yn dod i ben. CWG i gael prisiau ac yna cadarnhau dyddiad y mis nesaf.

**9.5** Cronfa Perchnogaeth Gymunedol

**9.6** Ymgynghoriad newydd: Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

**9.7** Dyddiadau hyfforddiant Mawrth, Ebrill, Mai & Mehefin 2024 Un Llais Cymru

Mae'r canlynol er gwybodaeth:

**9.7** Cais am enwebiadau ar gyfer anrhydeddau blwyddyn newydd y brenin 2025 dydd Gwener 31 Mawrth 2024 am 23:59

**9.8** Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd - CWG wedi ei hysbysebu ar y wefan ac ar *facebook*.

**10 BILIAU**

**10.1** Costau teithio CWG o fis Medi i Chwefror: 62 milltir @0.45c y filltir = £27.90
**10.2** Gwaith ar goeden ywen Gwytherin gan J.K Roberts - £1,300 + £260 T.A.W = £1,560
**10.3** Bil cyfieithu Enlli - £95
Pasiwyd i dalu'r uchod i gyd.

**11 MATERION LLEOL**

**AV** – Cafodd AV ei henwebu ac enillodd gwobr uchel Sieriff Clwyd am ei gwaith yn cefnogi cymunedau Bro Cernyw – llongyfarchwyd yn fawr gan bawb.
**DR** – Dywedodd fod pobl Fedwen Arian yn dal i ddweud fod y llwybr ddim yn iawn. Dywedodd CR y gwnâi fynd ar hyd y llwybr i ymchwilio.
**EW** – Yn anffodus cafodd baw ci ei ddarganfod ar rith ym mynwent Gwytherin. Er rhoi arwyddion i fyny yn dweud dim cŵn, nid yw hynny wedi gweithio. Penderfynwyd i roi ar agenda'r mis nesaf i gael camerâu T.C.C. Bydd angen i CWG gael prisiau erbyn mis Ebrill. Hefyd, dywedodd fod pobl yn gyrru ar draws y gyffordd ar dop allt Cefn Ffynnon a bod y ffordd wedi ei ail-wneud wrth ymyl Hendre Uchaf ond fod newid yng nghambr y ffordd ers gwneud hyn a dŵr yn dod o dan y tai rŵan.

**12 CYFARFOD NESAF**

Ebrill 24ain 2024 yn Llangernyw.
Cyfarfod yn dod i ben am 21:10.
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.